
CRONFA DATBLYGU IEITHOEDD TRAMOR MODERN

6 Ionawr 2006

Cyf: W06/01HE

At: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru

Crynodeb: Mae'r cylchlythyr hwn yn:
i) rhoi gwybod i sefydliadau am ganlyniadau'r ymgynghoriad ar *Adolygiad strategol o ddarpariaeth ieithoedd modern mewn sefydliadau addysg uwch a gyllidir gan CCAUC*, ac mae'n rhannu syniadau am arfer da a sut i weithredu yn y dyfodol; a
ii) gwahodd sefydliadau addysg uwch i gyflwyno cynigion ar gyfer datblygiadau ar y cyd mewn darpariaeth ieithoedd tramor modern mewn addysg uwch yng Nghymru.

Ymateb gan: Dydd Gwener, 17 Chwefror 2006

Gwybodaeth ychwanegol: Emma Raczka
Ffôn: 029 2068 2225
E-bost: emma.raczka@HEFCW.ac.uk

CYFLWYNIAD

- 1 Mae'r cylchlythyr hwn yn:
 - i) rhoi gwybod i sefydliadau am ganlyniadau'r ymgynghoriad ar yr argymhellion yn yr adroddiad, *Adolygiad Strategol o ddarpariaeth ieithoedd modern mewn sefydliadau addysg uwch a ariennir gan CCAUC*, gan gynnwys rhannu syniadau am arfer da cyfredol ac a argymhellir, a gododd drwy'r ymgynghori, ac ar sut i weithredu yn y dyfodol; ac yn
 - ii) gwahodd sefydliadau addysg uwch i gyflwyno cynigion ar gyfer datblygiadau ar y cyd mewn darpariaeth ieithoedd tramor modern (ITM) mewn addysg uwch (AU) yng Nghymru.

CEFNDIR

- 2 Cyhoeddodd y cylchlythyr W05/48HE argraffiad yr adroddiad ar ddarpariaeth ieithoedd tramor modern mewn AU yng Nghymru, a cheisiodd farn am argymhellion yr adroddiad, ac am sut i weithredu yn y dyfodol. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys seminar a gynhaliwyd ar 3 Hydref, a roddodd i fudd-ddeiliaid, gan gynnwys penaethiaid adrannau ITM a chynllunwyr strategol sefydliadau, gyfle i drafod sut i fynd â rhai o argymhellion yr adroddiad yn eu blaenau, yn ogystal â ffyrdd posibl o gydweithredu. Mae crynodeb o ganlyniadau'r ymgynghoriad yn **Atodiad A**.

Y GRONFA DDATBLYGU ITM

- 3 Mae swm o £100K ar gael yn 2005/06 i sefydliadau ddatblygu ffyrdd o gydweithredu. Nod y gronfa yw:
 - datblygu marchnata ITM yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys drwy ehangu gweithgareddau mynediad;
 - ffurfio dull trefnus a chynhwysfawr o fynd i'r afael â chynnwys cyflogwyr; a
 - chydweithio ar gyrsiau ITM ar draws ffiniau adrannol a sefydliadol, gan gynnwys mewn dysgu o bell.
- 4 Amcan hirdymor unrhyw fenter ar y cyd o anghenraid yw annog astudio ieithoedd tramor modern mewn SAUau yng Nghymru, er mwyn gwella gallu Cymru mewn ieithoedd, fel yr amlinellir yn strategaeth y Cynulliad ar gyfer ieithoedd modern yng Nghymru, *Ieithoedd sy'n Cyfrif*.

MEINI PRAWF AR GYFER CYNIGION AM GYLLID

- 5 Gwahoddir sefydliadau i gyflwyno cynigion ar y cyd, neu'n well, un cynnig ar draws y sector ar gyfer datblygiadau. Mae CILT Cymru, mewn partneriaeth â, fel y bo'n briodol, Canolfan Pwnc yr Academi AU ar gyfer ieithoedd, Ieithyddiaeth ac Astudiaethau Ardal (IIAA) ac In-cymru (Rhwydwaith Ieithoedd Cymru), wedi cyhoeddi ei fwriad i chwarae rhan weithredol mewn ffurfio a gweithredu rhaglen i ddatblygu ITM yng Nghymru, yn y tymor byr a'r tymor hirach.
- 6 Ymhlith y meysydd yr awgrymwyd y gellid eu datblygu, yn ôl yr ymgynghoriad ITM, mae:
 - Prosiect marchnata integredig, sy'n targedu cyflogwyr, staff ysgolion/gyrfaoedd a myfyrwyr posibl. Gellid cynnwys strategaethau i ehangu mynediad yn y prosiect;
 - Mentrau ar y cyd rhwng unedau mynediad, dysgu gydol oes, adrannau ITM arbenigol ac anarbenigol er mwyn cryfhau apêl ITM i fyfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli. Gallai'r gwaith gynnwys targedu disgyblion ysgol drwy gynlluniau mentora, er enghraifft, neu drwy gynnig samplau o ddysgu ieithoedd;
 - Gwaith arall ar y cyd, a hwylusir gan y rhwydwaith o adrannau dysgu gydol oes mewn SAUau. Er enghraifft, cynlluniau 'cenhadol' ar gyfer ITM â myfyrwyr israddedig neu Erasmus cyfredol, un ai mewn ysgolion, sefydliadau AB neu yn y gweithle;

- Hyrwyddo'r flwyddyn dramor drwy, er enghraifft, annog lleoliadau gwaith i fyfyrwyr yn ystod eu blwyddyn dramor;
 - Defnyddio dysgu o bell fel modd o ehangu'r gronfa o ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau ITM neu hwyluso cydweithio mewn addysgu ieithoedd rhwng adrannau, drwy gydweithredu â'r Brifysgol Agored yng Nghymru;
 - Datblygu strategaethau i wella hyrwyddo ITM i gyflogwyr; a
 - Hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith, fel sgil proffesiynol ychwanegol, i fyfyrwyr yn y broses fynediad cyn cychwyn, ac ar ôl cychwyn.
- 7 Mewn unrhyw gynig, mae'n rhaid i un SAU fod yn sefydliad arweiniol at ddibenion cyllido. Ni chaiff sefydliadau ddefnyddio'r gronfa ddatblygu ITM ar gyfer prosiectau y gellid eu hariannu yn rhesymol o ffynonellau eraill, a ni ddylent gyllido prosiectau'n 'ddeuol' drwy'r gronfa hon. Anogir sefydliadau hefyd i fynd â rhai datblygiadau yn eu blaenau drwy lwybrau presennol, fel y partneriaethau Ymgyrhaedd yn Ehangach neu gyllid ehangu mynediad neu ddysgu ac addysgu sefydliadau.
- 8 Ni ddylai cynigion geisio mynd i'r afael ag ITM fel maes pwnc sydd wedi'i ynysu rhag ystyriaethau strategol ehangach. Dylai prosiectau anelu at gynyddu gallu mewn ieithoedd modern yng Nghymru er mwyn gwneud Cymru yn fwy cadarn mewn cyd-destun rhyngwladol. Gallai rhai o'r camau gweithredu a gynigir fod o fewn y fframwaith 'pynciau o bwysigrwydd ehangach mewn cyd-destun Cymreig'.
- 9 Bydd angen i unrhyw gynigion ddangos y graddau:
- y byddant yn ymdrin ag argymhellion yr adroddiad *Adolygiad o ddarpariaeth ieithoedd modern mewn SAUau a ariennir gan CCAUC* ac yn cydblethu ag *Ieithoedd sy'n Cyfrif*;
 - y byddant yn cysylltu â chyfeiriad strategol pob sefydliad yn y bartneriaeth;
 - y byddant yn cynnig mantais i bob sefydliad ac i ddysgu ieithoedd mewn AU yng Nghymru;
 - y bydd y prosiectau'n cael eu hymgorffori, neu'n dod yn gynaliadwy yn yr hirdymor; ac
 - y byddant yn bodloni nodau'r gronfa.
- 10 Yn ogystal, bydd angen i'r cynigion nodi:
- Y prif ganlyniadau a ddisgwylir o'r prosiect(au);
 - Amserlen glir y bydd unrhyw brosiect(au) yn gweithredu o'i mewn;
 - Unrhyw ffynonellau cyllid eraill a fydd yn bwydo'r prosiect(au), gan gynnwys sicrhau na fydd y prosiectau'n cael eu hariannu'n ddeuol;
 - Y sefydliad arweiniol at ddibenion adrodd ac ariannol;
 - Rhan(nau) y bydd pob sefydliad neu sefydliad partner yn ei chwarae yn y prosiect(au) ar y cyd; ac
 - Y systemau sydd yn eu lle ar gyfer monitro sut y caiff cyllid ei ddefnyddio a gwerthuso cyflawniadau.

Y GRONFA AILGYFLUNIO A CHYDWEITHREDU A'R GRONFA DATBLYGU STRATEGOL

- 11 Gall y sector ddefnyddio cyfnod y prosiect i ystyried a ddylid mynegi diddordeb i Gronfa Datblygu Strategol CCAUC neu i'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu.

CYFLWYNO CYNIGION

- 12 Dylid anfon cynigion at Emma Raczka, Rheolwr Dysgu ac Addysgu, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DZ erbyn **dydd Gwener, 17 Chwefror 2006**.
- 13 Bydd panel ymgynghorol bach yn ystyried y cynigion, a fydd yn cynnwys swyddogion CCAUC ac o leiaf un aelod o'r Cyngor. Caiff sefydliadau wybod am y canlyniadau ddechrau mis Mawrth 2006 a disgwylir y telir mwyafrif y cyllid prosiect i arweinydd/arweinwyr y prosiect ddiwedd Mawrth 2006.

Darpariaeth Ieithoedd Tramor Modern (ITM) mewn sefydliadau addysg uwch a ariennir gan CCAUC

Crynodeb o ganlyniadau ymgynghori

Sylwadau cyffredinol

Roedd peth pryder ynglŷn â chanolbwyntio ar ieithoedd tramor modern, oherwydd gallai'r materion a godwyd fod yn berthnasol i sawl pwnc sydd o bwys strategol. Roedd un sefydliad nad oedd yn cydnabod y sefyllfa yr oedd adroddiad yn ei chyflwyno, sef bod angen darpariaeth ychwanegol a bod y ddarpariaeth ar hyn o bryd wedi ei chrynhof mewn nifer fechan o sefydliadau. Croesawodd sawl ymatebwr yr adroddiad, gan edrych ymlaen at gael cydweithredu gan ddefnyddio'r cyllid y mae CCAUC wedi'i neilltuo.

Dylid cofio mai trwy strategaeth ieithoedd tramor modern y Cynulliad, sef *Ieithoedd sy'n Cyfrif*, y gofynnwyd am gael cynnal adolygiad o ddarpariaeth ITM mewn sefydliadau AU a ariennir gan CCAUC, a nod y strategaeth oedd cynyddu'r gallu cenedlaethol mewn ieithoedd er mwyn gosod Cymru yn gadarnach o fewn cyd-destun rhyngwladol.

1) *Yn agenda cyffredinol pynciau o bwysigrwydd ehangach mewn cyd-destun Cymreig, a oes angen i Gymru ddatblygu strategaeth hollgynhwysfawr yn benodol ar gyfer ITM mewn AU?*

Roedd peth pryder y byddai strategaeth ITM yn cael ei hystyried o flaen meysydd pwnc eraill, ac yng nghyd-destunau ymreolaeth sefydliadau, hyblygrwydd a chynllunio strategol a phynciau o bwysigrwydd ehangach. Roedd eraill yn croesawu canolbwyntio'n fwy strategol, a fyddai'n helpu sicrhau bod darpariaeth ITM ar draws Cymru, ac yn helpu mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn darpariaeth a oedd eisoes wedi digwydd mewn rhai sefydliadau. Byddai angen i hyn ystyried rhagoriaeth a dulliau cyflwyno presennol.

2) *O ystyried safbwynt CCAUC bod yn well cael atebion strwythurol nag addasiadau arunig i'r model cyllido o ran pynciau o bwysigrwydd ehangach, pa gyngor gallwch chi ei gynnig am ymagweddau strwythurol posibl i gryfhau ITM?*

Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno na fyddai sefydliadau'n gefnogol i newidiadau bychain ym model cyllido CCAUC, ac roedd rhai'n pryderu ynghylch gwneud newidiadau strwythurol yn narpariaeth ITM o flaen pynciau bregus eraill. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr eraill o farn wahanol, gan ddadlau dros gefnogaeth i fodiwlau ITM ar ffurf premiwm, yn arbennig o ystyried y gost a ragwelir o gynnal cyrsiau ITM, neu dros ailystyried sut y gellid cynnig modiwlau mewn ieithoedd llai poblogaidd.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: datblygu marchnata ITM i bobl ifanc; llunio dull trefnus i ymgysylltu â'r gymuned fusnes; gweithio drwy sefydliadau sefydledig i ddylanwadu ar farn y cyhoedd am ITM; datblygu ac addysgu rhai cyrsiau ITM ar draws ffiniau adrannol a sefydliadol; argymhell prosiectau ymchwil ar y cyd rhwng SAUau, yn ogystal ag â chyflogwyr yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus, a allai ddenu cyllid sylweddol; hwyluso rhwydweithiau cefnogaeth cilyddol cydweithredol o staff mewn SAUau; cymryd rhan mewn rhaglenni o seminarau ar draws Cymru i ddatblygu staff a rhannu arfer da; a datblygu cydweithio wrth roi dulliau dysgu o bell ar waith mewn cydweithrediad â'r Brifysgol Agored.

3) *Pa fesurau y gellid eu cymryd i ehangu mynediad i gyrsiau ITM ar lefel AU, gan gynnwys adeiladu ar enghreifftiau presennol o arfer da, cysylltiadau ag AB ac integreiddio gwell gyda phartneriaethau Ymgynghori yn Ehangach?*

Roedd cefnogaeth i rannu arfer da a defnyddio arfau cyfredol yn y maes hwn, a chydabuwyd bod llawer yn cael ei wneud eisoes drwy'r partneriaethau Ymgynghori yn Ehangach. Pwysleiswyd pa mor

bwysig oedd i SAUau gyrraedd at fyfyrwyr yn gynnar yn y broses addysg. Awgrymwyd y dylai AU gydweithio ag ysgolion, diwydiant ac eraill i hyrwyddo manteision ITM ac y dylai targedu disgyblion o ddsbarthiadau sosio-economaidd is fod yn rhan o weithgareddau marchnata SAUau.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: datblygu rhwydweithiau gwybodaeth lleol/cenedlaethol yn cwmpasu ysgolion, SABau a SAUau iddynt gynnal sawl datblygiad yn y maes hwn, fel cynyddu uchelgais a chyfnewid adnoddau; cynyddu effaith cynlluniau a gyflwynwyd eisoes mewn SAUau, fel y cynllun lle bydd myfyrwyr gwirfoddol yn mentora a hyfforddi disgyblion ysgol o gefndiroedd amrywiol, o flwyddyn 7 ymlaen, i'w hannog i anelu at fynd i'r brifysgol; sicrhau bod adrannau ITM yn cydweithio'n agos â rhwydwaith gydweithredol o adrannau dysgu gydol oes mewn SAUau; a hyrwyddo ymwybyddiaeth iaith lefel isel, fel sgil proffesiynol, i fyfyrwyr yn y broses fynediad cyn cychwyn ac ar ôl cychwyn.

4) *Sut gallai CCAUC gynorthwyo SAUau i gymhwysu technolegau newydd orau a chael mynediad i farchnadoedd newydd drwy gydweithredu, gan gynnwys gyda'r Brifysgol Agored yng Nghymru, ym maes dysgu o bell?*

Roedd rhai ymatebwyr yn amheus o fanteision rhannu neu weithredu arbenigedd y Brifysgol Agored yn y maes hwn. Byddai defnyddio modiwlau'r Brifysgol Agored hyd yn oed cyn gwneud cwrs mwy 'traddodiadol' i israddedigion, neu fel rhan ohono, yn gofyn am dipyn o waith o ran amseru a defnyddio adnoddau. Fodd bynnag, roedd rhai'n ystyried bod gallu cyrsiau ITM i addasu i dechnolegau newydd yn hanfodol os ydynt am dyfu yn y dyfodol.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: archwilio cyflwyno 'modiwlau diwylliannol' ar y cyd; hyfforddi staff i'w galluogi i ddatblygu darpariaeth dysgu o bell; archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio Lyceum y Brifysgol Agored er mwyn i fyfyrwyr o SAUau eraill allu cofrestru ar fodiwl y Brifysgol Agored ac yna drosglwyddo'r credydau i'w rhaglenni israddedig; a defnyddio'r Brifysgol Agored wrth ledaenu arfer da yn y maes hwn ymysg SAUau eraill yng Nghymru.

5) *Sut gall gweithredu ar y cyd gael ei gymryd yn ei flaen drwy Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu CCAUC?*

Pwysleisiwyd mai'r SAUau fyddai'n penderfynu a ydynt am gydweithredu, yn unol â chynlluniau strategol. Awgrymwyd bod cydweithredu ar draws Cymru eisoes drwy CILT Cymru a Chanolfan Pwnc yr Academi AU dros Astudiaethau Iaith, Ieithyddiaeth ac Ardal, yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arni. Roedd rhai cyfeiriadau at gydweithredu drwy rwydweithiau ieithoedd ar draws Cymru a rhanbarthau, neu drwy ddarpariaeth ieithoedd yr addysgir llai arnynt, fel Iseldireg a Rwsieg, ond ni chrybwyllwyd y GACH. Cyflwynwyd cynnig cydweithredol sy'n cynnwys 10 prosiect yn Lloegr a gyllidwyd drwy'r Gronfa Ailgyflunio a Chydweithredu fel enghraifft o gynnig cydweithredol ar raddfa fawr.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: datblygu rhwydweithiau ieithoedd ar draws Cymru a rhanbarthau; cydweithredu i ddarparu ieithoedd llai cyffredin; a chefnogi a lleadaenu arfer da cydweithredol gan benaethiaid ITM, CILT Cymru ac IIAA.

6) *Sut gallai SAUau gydweithio i ddatblygu darpariaeth/staffio ar y cyd, efallai drwy strategaethau adrannol, sefydliadol neu gydweithredol newydd neu gyfredol?*

Ar ochr negyddol, nid oedd hon yn broblem unigryw i ITM, a gallai logisteg, daearyddiaeth a chenhadaeth sefydliadol wneud cydweithredu o ran staffio yn anoddach. Roedd eraill yn fwy cadarnhaol, gan awgrymu y gallai dysgu o bell a rhannu staff helpu SAUau gynnig amrywiaeth ehangach o fodiwlau iaith, yn enwedig mewn ieithoedd yr addysgir llai arnynt.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: cyflogi a rhannu staff i fynd ag arloesiadau a gyllidir gan gronfa datblygu ITM CCAUC yn eu blaenau mewn meysydd fel addysgu ieithoedd yr astudir llai arnynt a datblygu ymchwil/cyrsiau; a chaniatáu i fyfyrwyr ddewis modiwl iaith fel rhan o'u rhaglen i israddedigion.

7) Sut gallai cysylltiadau â SABau a sefydliadau hyfforddiant gael eu gwneud gan SAUau?

Gwnaed cysylltiadau gan SAUau i ryw raddau eisoes. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai cysylltiadau o'r fath wella'r dewis o ieithoedd yn lleol, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol wrth ehangu mynediad.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: defnyddio fframwaith credydau tryloyw a fyddai'n ymgorffori Ysgol Ieithoedd y Fframwaith Ieithoedd Ewropeaidd; rhoi gwybodaeth i bob SAB am fanteision sgiliau iaith ar wahanol lefelau; a chynyddu'r effaith ar SABau a sefydliadau hyfforddi drwy adeiladu ar weithgareddau hyrwyddo cyfredol.

8) Sut gallai sefydliadau gymryd yr argymhelliad hwn yn ei flaen gyda sefydliadau gyrfaoedd, cyflogwyr a hyfforddiant?

Roedd ymatebwyr am bwysleisio rhan sefydliadau eraill, yn ogystal â SAUau, wrth hyrwyddo manteision dysgu ieithoedd. Roedd un ymatebwr heb ei argyhoeddi bod cyflogwyr yn aneglur ynghylch manteision *graddau* ITM, er y cydnabuwyd ar y cyfan bod angen gwneud mwy gyda manteision *sgiliau* iaith.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: darparu fforwm i gyfnewid profiadau a lledaenu arfer da ymysg athrawon, dysgwyr a defnyddwyr ITM; sefydlu cysylltiadau creadigol gyda'r sector hyfforddi; a chynnal gwaith cydweithredol ychwanegol i berswadio gyrfaoedd, cyflogwyr a sefydliadau hyfforddi am werth sgiliau iaith ar bob lefel i fusnesau, a'u hyrwyddo iddynt.

9) Os dylai'r flwyddyn dramor barhau'n elfen allweddol o gyrsiau ITM mewn AU, sut gellid ei gwneud yn fwy deniadol i bob myfyriwr er mwyn cynyddu cyfranogiad cyffredinol, yn ogystal â helpu ehangu mynediad i gyrsiau ITM?

Roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn cytuno bod y flwyddyn dramor yn fuddiol ac y dylai barhau'n rhan allweddol o gyrsiau ITM mewn AU, a phwysleisiodd lleiafrif fanteision cynnodau byrrach dramor dros gyfnod. Nid oedd yr holl ymatebwyr yn cytuno ei fod yn rhwystro myfyrrwyr. Awgrymodd rhai y dylid ehangu ar y cymorth ariannol sydd ar gael i fyfyrwyr yn ystod y flwyddyn hon, fel bwrsariaethau neu grantiau cynhaliaeth neu waith cyflogedig mewn ysgolion.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: rhannu arfer da mewn marchnata'r flwyddyn dramor; delio â materion sy'n gyffredin i SAUau fel dull systematig o ymdrin â lleoliadau gwaith, gan gynnwys materion ariannu; a sefydlu gwasanaeth cenedlaethol (i Gymru) ar gyfer darparu lleoliadau gwaith dramor.

10) Sut gallai adrannau ITM gyfrannu at ddatblygiad strategaethau datblygu sefydliadol, corfforaethol a rhyngwladol?

Roedd yn ymddangos bod gan adrannau ITM mewn SAUau rolau amrywiol wrth gyfrannu at strategaethau datblygu corfforaethol a chenedlaethol. Crybwyllodd rhai bwysigrwydd integreiddio modiwlau iaith â meysydd pwnc eraill, neu ymgorffori sgiliau cyfathrebu i gyrsiau i alluogi graddedigion i weithredu ar draws y byd.

Roedd yr awgrymiadau dros weithredu yn y maes hwn yn cynnwys: mwy o gysylltiadau â strategaethau datblygu corfforaethol sefydliadau a rhyngwladol, a chynnig mwy o gymorth wrth eu datblygu; cynorthwyo'r swyddfa ryngwladol mewn ffeiriau recriwtio ac wrth ddatblygu deunyddiau marchnata rhyngwladol; a chynnwys elfennau rhyngwladol mewn strategaethau marchnata ar gyfer ITM mewn SAUau unigol ac ar y cyd ar lefel genedlaethol.

11) Sut gellir meithrin cysylltiadau ymhellach rhwng adrannau ITM SAUau a'u hadrannau marchnata eu hunain a rhwng adrannau ITM a SABau, sefydliadau addysg oedolion ac adrannau dysgu gydol oes?

Gwneir gwaith yn y maes hwn eisoes. Er nad oedd pob SAU o'r farn y gellid gwneud mwy ar ben y rhaglenni presennol, os na fyddai'r Cynulliad neu CCAUC yn llywio SAUau i ddarparu cyrsiau newydd, cyflwynodd eraill syniadau mwy ymarferol dros weithredu. Roedd y rhain yn cynnwys: datblygu mentrau mewn ITM ac e-ddysgu; lleoli myfyrwyr amser llawn mewn busnesau lleol fel cenhadon iaith; targedu myfyrwyr o ddisbarthiadau sosio-economaidd is fel rhan o'u strategaethau marchnata ITM ehangach; a dangos gwerth ieithoedd i ddysgwyr ieithoedd posibl, rheolwyr hyfforddiant a defnyddwyr busnes.

12) Sut gall SAUau adeiladu ar, a lledaenu arferion arloesol yn eu sefydliad eu hunain neu mewn SAUau eraill?

Roedd amrywiaeth o fodiwlau iaith eisoes ar gael mewn SAUau yng Nghymru, ac roedd darparwyr yng Nghymru eisoes wedi manteisio ar arloesedd. Roedd hwn yn un maes a allai fanteisio ar ledaenu arfer da. Awgrymodd rhai arferion arloesol a allai elwa ar gydweithredu, gan gynnwys ystyried datblygu darpariaeth *ab initio* ac anarbenigol drwy dynnu ar arbenigedd y Brifysgol Agored; datblygu cyrsiau/gwasanaethau busnes newydd ar y cyd; a rhannu elfennau o gyrsiau drwy rwydwaith fideo a chyfnawid staff.

13) Sut gall SAUau yng Nghymru adeiladu ar niferoedd ymchwil cyfredol mewn ITM drwy greu rhwydweithiau ymchwil newydd neu gydweithredu i fanteisio'n fwy effeithiol ar ffynonellau cyllid?

Roedd gan sefydliadau gysylltiadau â SAUau eisoes, yng Nghymru a'r tu hwnt. Er nad oedd SAUau am wthio cydweithredu annaturiol rhwng sefydliadau, roedd dyn yn gweld bod gwerth mewn SAUau sydd â chanolfannau ymchwil wedi'u hen sefydlu yn cwrdd â CCAUC a'r AHRC yng nghyd-destun 'pynciau o bwysigrwydd ehangach'. Awgrymodd un arall y gallai fod o fudd sefydlu cronfa ddata o ddiddordebau ymchwil mewn ITM a SAUau yng Nghymru.

14) Sut gellid annog cysylltiadau rhwng SAUau a grwpiau cyflogwyr neu fusnesau?

Er y derbyniwyd nad SAUau yn unig oedd yn gyfrifol am hyn, a bod peth gwaith eisoes yn cael ei wneud yn y maes hwn, awgrymwyd sawl ffordd o ymgysylltu â grwpiau busnes, fel: sesiynau briffio i godi ymwybyddiaeth i ddangos gwerth ychwanegol ymwybyddiaeth ieithyddol a diwylliannol i unrhyw fusnes sy'n gweithredu y tu allan i'r DU; drwy fforymau busnes/addysg; a thrwy gefnogaeth gan LICC ac asiantaethau eraill.

15) Yn ogystal â'r gwaith a argymhellir ar gyfer y Grŵp Llywio ar gyfer Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a'r Ganolfan Datblygu Addysgu Cyfrwng Cymraeg, sut gellid dod â'r camau gweithredu hyn i'r brif ffrwd mewn strategaeth gyffredinol sefydliad ar gyfer ITM a sut gallai cydweithredu chwarae rhan?

Roedd barn ymatebwyr yn amrywio o ran y galw am gyrsiau ITM cyfrwng Cymraeg, gan gofio y byddai llawer o'r addysgu ITM yn digwydd drwy gyfrwng yr iaith darged. Awgrymodd ymatebwyr rwydweithiau a dysgu o bell fel ffyrdd posibl o ehangu darpariaeth yn y maes hwn. Hefyd, efallai y byddai rhywfaint o botensial mewn cydweithredu wrth ddatblygu cyrsiau newydd a'r deunyddiau addysgu cysylltiedig.